# Arsylwadau o wersi

Mae arsylwadau o wersi yn canolbwyntio'n bennaf ar waith un dosbarth, sesiwn neu wers. Yn nodweddiadol, byddant yn golygu bod arolygydd yn arsylwi dysgwyr mewn lleoliad ystafell ddosbarth, labordy neu weithdy. Ar adegau, gall yr arsylwad o wers gynnwys arsylwi dysgwyr y tu allan i'r ystafell ddosbarth, er enghraifft mewn ardaloedd awyr agored, mewn neuadd chwaraeon neu fan perfformio neu yn y coridorau.

Mae arolygwyr yn arsylwi gwersi am o leiaf 30 munud. Yn y rhan fwyaf o achosion, byddant yn arsylwi dysgu am gyfnod hwy na hyn. Yr amser arferol ar gyfer arsylwi gwers yw rhwng 45-60 munud, ond gallai fod yn fwy gan ddibynnu ar natur y wers a'r dystiolaeth a fynnir gan yr arolygydd. Ar adegau, gall arolygwyr dreulio 30 munud gyda dosbarth ar ddechrau sesiwn neu fynd yn ôl nes ymlaen i weld rhannau eraill o'r wers.

Ar ddiwedd pob arsylwad o wers, bydd yr arolygydd yn cynnig y cyfle i'r athro gael deialog broffesiynol fer ar y wers/gweithgaredd a arsylwyd. Pan na fydd hyn yn bosibl, dylai'r arolygydd a'r athro gytuno ar amser a lleoliad sy'n gyfleus i'r ddau i gynnal y ddeialog broffesiynol. Dylai'r arolygydd gynnig cyfle ar gyfer deialog broffesiynol bob amser, ond yr athro dan sylw sydd i ddewis p'un a yw'n dymuno derbyn y gwahoddiad neu beidio.

Dylai deialog broffesiynol gydag athrawon ganolbwyntio'n bennaf ar waith y dysgwyr. Dylai sylwadau ar ansawdd yr addysgu ymwneud â'r cryfderau a'r gwendidau yn y dysgu a welwyd a chyfraniad yr addysgu at hynny.